Rhifyn Gorff 2019.qxp_Layout 1 27/06/2019 20:00 Page 1

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 41. RHIF 2 GORFFENNAF 2019 50c

# Oedfa Ordeinio Blaenor Newydd yn Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain

## *gan John G. Williams*

Cynhaliwyd oedfa arbennig o dan nawdd Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain yn Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl ar 23 Mai i ordeinio blaenor newydd. Mae Miss Ann Davies o Eglwys y Berthen, Licswm wedi bod yn aelod ffyddlon a gweithgar ar hyd y blynyddoedd a braf ei gweld yn derbyn y cyfrifoldeb o fod yn flaenores. Bu y Parch. Ddr. Athro D. Ben Rees ymddiddan ag Ann ac yn gofyn iddi am ei chefndir crefyddol, y dylanwadau pwysig ar ei ffydd ac am ei gobeithion am y dyfodol.

Mrs. Cynthia Owen, Llywydd Cymdeithasfa y Gogledd a'r Parchedig Eirlys Gruffydd-Evans, Llywydd yr Henaduriaeth oedd yn gyfrifol am yr ordeinio gyda chyfraniadau gan Mrs. Shân Morris a Mrs. Nesta Davies, chwaer Ann. Cafwyd cyfle yn ystod yr oedfa i longyfarch Mr. Caradoc Jones Caersalem, Fflint ac Mr. Elwyn Evans, Oaker Avenue, Manceinion am eu gwasanaeth fel blaenoriaid am 40 mlynedd. Nid oedd Mr Tudur Beech, Llandegla yn medru dod i'r gwasanaeth gael ei longyfarch am ei wasanaeth am dros 70 mlynedd ond cafwyd gair o werthfawrogiad teilwng iddo gan Mr. Prysor Williams.
Diolch am y sawl sydd "byth yn eu gwaith yn drist".



*Ann Davies wrth ei bodd yn yr holi a'r ymddiddan*



*Y llywydd yn llongyfarch ac Elwyn Evans a D. Caradoc Jones*



*Ann a'i theulu, Nesta a chyfnither o Aughton*



*Cynthia Owen, Ann Davies ac Eirlys Gruffydd-Evans*

Rhifyn Gorff 2019.qxp_Layout 1  27/06/2019  20:00  Page 2

Golygyddol

# *Da iawn, tîm Lerpwl - gan D. Ben Rees*

Ni welodd rai ohonom well gêm erioed na'r gêm honno ar nos Fawrth, 7 Mai rhwng Lerpwl a thîm nodedig Barcelona yn stadiwm Anfield. Cynhelir dwy gêm yn erbyn yr un tîm trwy gystadleuaeth Cwpan Ewrop, ac yn y rownd gyntaf credai y cefnogwyr pennaf ei fod hi ar ben ar dîm Lerpwl. Rydach chi'n cofio'r dedfryd? Collodd Lerpwl y gêm gyntaf i ffwrdd i Barcelona yn Camp Nou o dair gôl i ddim! Gwelwyd y noson honno absenoldeb dau o'r chwaraewyr medrus – Mohamed Salah a Roberto Firmino. Ni allaf beidio a meddwl am y pentref y ganwyd Salah yn yr Aifft a pha mor garedig a haelionus ydyw tuag at drigolion y pentref lle'i ganwyd. Gwych yw gweld bachgen ifanc yn goresgyn ei amgylchfyd a dod yn un o chwaraewyr pennaf y gêm bêl-droed.

Nid oedd hyd yn oed yr optimist Jürgen Klopp yn meddwl y gellid ennill yr ail gêm gyda digon o fwyafrif – o leiaf sgorio pedair gôl yr un noson. Ond dyna a ddigwyddodd.

Ond yr oedd un elfen arall i'w gofio, cefnogwyr Lerpwl a hwythau adref yn Anfield. Clywsom y miloedd yn canu, yn cefnogi ar gân, yn ysbrydoli pob un o chwaraewyr Lerpwl i fod yn hyf a hyderus. Yn y rhan gyntaf o'r gêm daeth newydd dda pan agoriodd Divock Origi gôl. Lerpwl 1, Barcelona 0 ond mewn gwirionedd 1-3! Yn yr ail hanner cawsom ein cyffroi yn wirioneddol. Marciau llawn i Klopp am ddod ymlaen i chwarae Georginio Wijnaldum. Bu yn cicio'i sodlau yn y rhan gyntaf ond yn awr yr oedd ar y cae. Ac o fewn ychydig funudau gwnaeth Georginio yr amhosibl,  sgorio dwy gôl. Yna yn yr wythdeg munud sgoriodd Origi gôl arall. Y sgowser Trent Alexander-Arnold oedd y tu ôl i'r gôl. Ciciodd ef y bêl o'r cornel gan roddi cyfle gwych i Origi. Manteisiodd ar ddiffyg amddifyniad Barcelona. Ni allai gorau'r byd, Lionel Messi a'i gyd chwaraewyr o Barcelona wneud dim byd ond rhyfeddu ar weithred anhygoel tîm pêl-droed Lerpwl. Yr oedd




*Yr orymdaith yn ninas Lerpwl*

Lerpwl wedi gwneud yr amhosibl, dyma wyrth go iawn ym myd timau gorau'r byd.

Y gyfrinach? Gwelwyd nid un neu ddau yn chwarae yn anhygoel o dda ond y tîm cyfan. Pob un o'r unarddeg. Roedd yr amddiffynwyr, Jordan Henderson, Fabinho a James Milner fel tri teigr, a gwelodd Barcelona y noson honno pa mor arbennig yw'r tri pan ddaw'r awel o'u plaid. Y gŵr a gafodd ei alw fel y chwaraewr gorau oedd Sadio Mané, a bu ef wrthi bob munud, heb ddiffygio am eiliad. Clywais Chris Bevan o BBC Sport yn dweud fod Lerpwl wedi gwneud hanes y noson honno:

***'This was the first time since 1986 that a team have recovered a three goal first-leg deficit to win a semi final in this competition'.***

Felly y gêm derfynol a hynny ar Sadwrn, 1 Mehefin pan oedd dau dîm o Loegr yn brwydro am y cwpan, sef Lerpwl a Tottenham Hotspurs. Bu disgwyl mawr yn Lerpwl. Gwelir fflagiau Lerpwl yn hongian o ffenestri a waliau cartrefi y cefogwyr brwdfrydig a teithiodd miloedd ohonynt i weld y gêm. Dyma y gêm fawr, a disgwyl mawr amdani gan y ddinas i gyd.

Nid oedd cymhariaeth rhwng y ddwy gêm, ac yr oedd rheswm syml am hynny, lleoliad y gêm. Fel y dywedodd Klopp yr oedd chwaraewyr Lerpwl heb yr egni angenrheidiol yn Madrid ar noson boeth, chwyslyd. Ond ennill a ddigwyddodd a bu'r gôl gyntaf yn sbardun i Lerpwl i ddal ati gan nad oedd Spurs ei hunain yn medru dygymod â'r gwres llethol  chwaith, a bu cryn siarad a oedd Harry Kane yn holliach. Mae ef yn bêl-droediwr o'r radd flaenaf, ond ni ellid dweud iddo ddisgleirio yn Madrid. Ond credaf fod cyfiawnder wedi ei wireddu a bod tîm Lerpwl yn haeddu cael y llaw drechaf a derbyn y Cwpan hardd am y chweched tro yn hanes y clwb.

Credaf yn bersonol fod y fuddugoliaeth ym Madrid yn mynd i esgor ar gyfnod llwyddiannus i Lerpwl. Bu Klopp yn ofalus o'r clwb ers pan iddo ymuno, a bellach y mae ganddo dîm sydd bron cystal â dinas Manceinion (Manchester City). Hwy yw'r pencampwyr na fu mo'i tebyg ers oes aur Lerpwl. Mae'n argoeli bod yr oes aur honno ar y gorwel.




*Jürgen Klopp – rheolwr tîm Lerpwl*

Rhifyn Gorff 2019.qxp_Layout 1 27/06/2019 20:00 Page 3

# CYFARFOD COMISIYNU ROBERT PARRY



Ar bnawn Sadwrn, 4 Mai cynhaliwyd Gwasanaeth Comisiynu y Parchedig Robert Parry yn gynorthwy-ydd bugeiliol i Eglwysi Bethel, Bethania a Seion. Y llywydd oedd y Barchedig Eirlys M. Gruffydd-Evans, Yr Wyddgrug, Llywydd Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain, a'r organyddes Mrs Margaret Anwyl Williams. Roedd y gwasanaeth dechreuol yng ngofal y Parchedig Huw Powell-Davies, Dr. Pat Williams (Bethel) a Mrs Mair Rees Jones (Seion, Penbedw).

Cyflwynwyd y Parch. Robert Parry i ni gan Mr. Gareth Vaughan Williams, Wrecsam fel bugail heb ei ail, yn adnabod ei holl aelodau yn bersonol, yn bregethwr grymus a chyfoes, yn saernïo ei bregethau yn ofalus, ac yn barod i rannu ei ddoniau cerddorol. Byddwn fel eglwysi yn elwa o'i waith bugeiliol gyda gwên a chyfeilgarwch.

Yna, cawsom eglurhad o gefndir a phwrpas cynllun y swydd gan y Barchedig Nan Powell-Davies. Balch ydoedd ein bod ni yma yn Lerpwl â dyhead yn ein calon i'r gwaith barhau i ofalu am eraill ac i ymestyn allan yn ddi-amod.

Roedd y rhan ffurfiol o'r comisiynu o dan ofal ein gweinidog y Parchedig Ddr. D. Ben Rees ac ef oedd yn gyfrifol am drefniant y rhaglen. Ef hefyd a offrymodd y weddi yn lle Mr. John Lyons oedd yng nghanol ei brofedigaeth fawr. Da oedd ei weld ef a'i ferch yn yr oedfa. Diolchwn i Dr. Rees am ei holl waith.

Roedd y gynulleidfa i sefyll tra roedd y cwestiynau yn cxael eu gofyn i'r cynorthwy-ydd bugeiliol Parch. Robert Parry. Ymatebodd yntau gyda dyfyniadau o ganeuon y Beatles, a ninnau o fewn tafliad carreg i Penny Lane.

*"All together now"*, pawb i fod yn unol ac i gydweithio. *"All you need is love",* ie, cariad yr Arglwydd Iesu Grist a chariad at ein gilydd. Traddodwyd siars i'r eglwys gan y Parchedig Elfyn Richards. Byrdwn ei neges ef oedd geiriau yr Apostol Paul yn llyfr yr Actau i edrych arnom ein hunain, ac am yr holl braidd, i fugeilio Eglwys Dduw ac chyhoeddi cariad yr Arglwydd Iesu.

Mae Lerpwl yn enwog am eu timau pêl-droed. Rhaid i niunnau weithio fel tîm i sicrhau llwyddiant yr Achos Cristnogol Cymraeg yma yn Lerpwl.

Yn dilyn y gwasanaeth arbennig hwn roedd lluniaeth yn y ganolfan i aelodau capel y Groes, Eglwys Gymraeg Caer a gwesteion arbennig. Roedd hyn yn gyfle i gael sgwrsio a chyfarfod y teulu cyfan, yn arbennig Suzane y wraig, y plant Anna ag Elis, ac aelodau eraill o'r teulu.

***Nan Hughes Parry***


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -

CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

O dan ofal ein Gweinidog talwyd teyrnged hyfryd i goffadwriaeth Mrs Marian Lyons yn oedfa bore Sul, 12 Mai ym Methania, a chanwyd emyn, yn ôl ein harfer er coffa amdani. Y Sul dilynol yng nghwmni'r teulu ym Methel talodd Dr. Rees deyrnged arall gysurlawn, a gwelwn ei cholli yn fawr, ac yn arbennig yn y cartref, ym Methania a Bethel, ac ymhlith ei theulu ym Môn. Da oedd gweld cynrychiolaeth dda o Bethania yn bresennol yn Oedfa Comisiynu a gafwyd ar bnawn Sadwrn, 4 Mai a chael cwmni John Lyons ynghanol ei alar, gan ei fod ef yn aelod o Bwyllgor Cefnogi y Cynorthwy-ydd Bugeiliol. Dyma aelodau o' r Pwyllgor: Dr. D. Ben Rees (Llywydd), Dr. Pat Williams (Ysgrifennydd), Parchedig Robert Parry (Cynorthwy-ydd Bugeiliol); o'r Eglwysi: Mrs Nan Hughes Parry, (Bethel), John P. Lyons ac Eleanor Boyd (Bethania) ac o Seion, Penbedw: Mrs Mair Rees Jones a Mrs Phyllis O' Neill. Disgwylir iddynt gyfarfod bob rhyw chwarter.

Anfonir dymuniadau gorau i Mrs Menna Edwards. Blundellsands a ddychwelodd adref ar ôl cyfnod o waeledd yn Ysbyty Aintree.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

*Tydi a roddaist liw i'w wawr*
*a hyd i' r machlud mwyn,*
*tydi, a luniaist gerdd a sawr*
*y gwanwyn yn y llwyn.*
*O cadw ni rhag colli'r hud*
*sydd heddiw'n crwydro drwy'r holl fyd.*

Dyma ddymuniad y bardd T. Rowland Hughes, unwn ninnau i ddatgan yr un gwerthfawrogiad o fyd natur o'n hamgylch yn y ddinas.


Un o gyfarfodydd pwysicaf y flwyddyn yn ddiamau oedd cyfarfod Comisiynu y Parchedig Robert Parry ar bnawn Sadwrn, 4 Mai, 2019 yng nghapel Bethel, a bu hi yn ddiwrnod cofiadwy iawn i'r gynulleidfa hardd. Gwelsom luniau o'r Comisiynu ar dudalen flaen *Yr Angor* rhifyn Mehefin a cheir adroddiad llawn yn y rhifyn hwn o'r *Angor* gan Mrs Nan Hughes Parry. Diolchir iddi amdano.

Yna ar nos Lun, Mai 20 cawsom noson i drin a thrafod y cwestiwn 'Beth sydd wedi digwydd i grefydd ers 1980' .

Agrowyd y drafodaeth gan ein gweinidog gan gyflwyno i ni lawer iawn



**_Parchedig Eirlys Gruffydd-Evans Llywydd Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain_**



**_Prysor Williams yn sirad yn dda am Tudor Beech yn yr Henaduriaeth_**

o ystadegau am y dirywiad. Cawsom ninnau fel cynulleidfa gyfle i roi ein mewnbwn. Mae llai yn mynychu yr oedfaon, capeli'n cau o un enwad yn hytrach nag uno gydag enwad arall yn yr un ardal, diffyg gweinidogion ac arweiniad ysbrydol. Mae llawer iawn o atdyniadau ar y Sul heddiw, y siopau ar agor, gemau pêl-droed ac aelodau yn troi cefn ar grefydd gyfundrefnol. Y Suliau yn dra gwahanol ers dyddiau ein plentyndod ni. Buddiol oedd cael mynegi barn ar bynciau sy'n ymwneud ag addoli ar y Sul ond hwyrach mai gwthio'r ffiniau y dylem i gyrraedd at y rhai hynny sydd mewn angen. Diolch i'n gweinidog am ein hannog i ystyried cyflwr a dirywiad ein haddoli, ac am ei ysgrif yn *Y Goleuad* a ysgogodd gryn drafod ar y radio a'r papurau, hyd yn oed y *Sunday Times* (26 Mai).

Cynhaliwyd Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain ym Methel ar Fai 22. Cyfarfod y pnawn i weinidogion a blaenoriaid yn unig. Daeth bws gyda aelodau'r Henaduriaeth o'r Wyddgrug a Rhos a'r cyffiniau. Darparwyd te gan chwiorydd yr Eglwys ac yna am 7 o'r gloch ac yn agored i bawb, gwasanaeth Ordeinio Blaenoriaid. Un yn unig oedd i'w hordeinio sef Miss Ann Davies o Eglwys Berthen, Licswm. Braf oedd cael croesawu yr Henaduriaeth yma i Lerpwl, nid yw hyn yn digwydd yn aml, a chael arweiniad Cynthia Owen o Fangor.

Mae ein diolch yn fawr iawn i Miss Carys Jones am drefnu casgliad blynyddol o ddrws i ddrws 'Cymorth Cristnogol' . Diolch hefyd i'r gwirfoddolwyr a'r cyfanswm eleni yn uwch eto – £592. Gweithgarwch anhygoel yw hwn.

Anfonwn ein cofion annwyl atoch chwi aelodau sydd ar hyn o bryd yn gaeth i'ch cartrefi a' r rhai hynny sydd mewn cartrefi gofal.

Cydymdeimlwn â Mrs Iona James ar golli ei mab Ifan. Dyma ergyd drom iddi a chofiwn amdani yn ein gweddïau.

Mae Mrs Anne M. Jones wedi derbyn triniaeth ar ei llygad. Dymunwn adferiad buan iddi. Mae Mrs Lilian Coulthard adref o'r ysbyty, edrychwn ymlaen i'w chael yn ein mysg eto.

Ein llongyfarchiadau fel eglwys i Mrs Blodwen Roberts ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 90 oed. Hefyd i Mrs Margaret Anwyl Williams, ein horganyddes ar ddod yn nain i ferch fach, Nia Anwyl.

Trist yw cofnodi marwolaeth Mrs Mair Williams, Gateacre ar bnawn Mawrth, 28 Mai yn 83 mlwydd oed. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'i phriod David John Williams a'r dair ferch, y teuluoedd, a chwiorydd Mair yng Nghymru. Daeth tyrfa gref i dalu'r gymwynas olaf i Ifan Wyn James, mab Iona James, (Aintree) yn Amlosgfa Springwood ar 28 Mai. Cydymdeimlir â'i briod, ei fam a'r holl anwyliaid yn eu galar.

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Cawsom lawer iawn o brofiadau ym mis Mai a cholled fawr ym marwolaeth yr annwyl Marian Lyons a fyddai'n dod yn ei thro i'n gweld. Cydymdeimlwn fel eglwys gyda Chapel Bethania ac yn ddwys hefyd gyda John a'r teulu oll yn eu profedigaeth. Boed iddynt i gyd dderbyn cysur a nerth yn yr hiraeth.

'Roeddem wedi edrych ymlaen at brynhawn Sadwrn, Mai 4ydd, pryd y cynhalwyd Cyfarfod Comisiynu y Parchedig Robert Parry fel cynorthwy-ydd bugeiliol i eglwysi Cymraeg y Presbyteriaid yn Nosbarth Lerpwl. Cawsom fwynhad mawr yn y Cyfarfod ardderchog yma oedd wedi ei drefnu mor ofalus a manwl a phopeth yn rhedeg yn esmwyth. 'Roedd awyrgylch hapus a chartrefol yn y neuadd, y canu yn fendigedig a phawb mor gyfeillgar. Does gennym ond canmoliaeth mawr am brynhawn a erys yn y cof. Canmoliaeth hefyd am y wledd ardderchog a ddarparwyd gan chwiorydd yr Eglwys. Diolch yn fawr i chwi y merched am eich holl waith a'ch croeso cynnes.

Ar y Sul canlynol cawsom y pleser, fel eglwys o groesawu Mr D. Glyn Williams, Llandudno i'n plith ynghyd a Mrs Williams ei wraig. Mae Mr Williams yn ddiacon yn Eglwys yr Annibynwyr, Cyffordd Llandudno a dyma'r tro cyntaf iddo ddod i'r Glannau i bregethu. Mawr hyderwn y cawn ei groesawu yma eto.

Sul y Cymun Sanctaidd oedd y Sul canlynol a daeth y Barchedig Eleri Edwards i'n gwasanaethu. Byddwn bob amser yn edrych ymlaen at ei hymweliad â ni fel Eglwys gan y bydd â rhywbeth newydd i dynnu ein sylw a'n diddordeb fel y bydd ei neges yn aros yn y côf.

Un arall sy'n denu ein diddordeb a'n sylw yw Dr John Williams, Bethel. Mae yn gwneud hyn wrth defnyddio "power point' a sgrin. Daeth atom y trydydd Sul yn Mai a thestun ei bregeth oedd Temtiad yr Iesu a thrwy ddefnyddio y sgrin gallai ddangos llawer o luniau priodol a siarad amdanynt. Ar adegau mae "Visual Aids" yn ddefnyddiol iawn. Diolchwn iddo am ei holl waith.

Ar y Sul olaf o'r mis daeth y Parchedig Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan atom i gynnal y Gwasanaeth. Mae wedi dod atom unwaith y flwyddyn am lawer o flynyddoedd bellach ac mae'n bleser croesawu'r gŵr bonheddig yma i'r capel ac hefyd ei ferch Eifiona sy'n ei gludo yn y modur. 'Roeddynt wedi cychwyn tua wyth o'r gloch yn y bore gan ei fod yn pregethu yn Bethel, Lerpwl yn y bore.

Unwaith eto, diolchwn fod pregethwyr o bell ffordd am ddod atom i bregethu ar y Sul.

'Roeddem fel eglwys yn falch iawn glywed fod y Parchedig Robert Parry yn ôl gartref ar ôl ysbaid yn yr ysbyty ac yn gwella yn foddhaol. Pob dymuniad da iddo am adferiad llwyr a buan.

## Cymdeithas Cymry Birkenhead

Ar 29 Ebrill croesawyd ein cyfaill Mr Goronwy Humphreys, Wallasey atom gyda' i ail sgwrs am "Fwy o Ganeuon Cymraeg", sy'n dilyn ar ei ddarlith cyntaf am darddiad tonau cyfarwydd fel caneuon gwerin a phoblogiadd.

Roedd ei sylw y tro hwn ar emyn donau yn fwy na chaneuon traddodiadol. Mae emynau ein gwlad wedi diddori Goronwy o' i ddyddiau cynnar fel organydd yng nghapel Rake Lane, Wallasey lle roedd y teulu yn weithgar dros ben.

Cawsom hanes am gyfiethiadau o emynau Saesneg a throsiadau o ganeuon poblogiadd a'i troi yn emyn donau. Gwelwyd newid enwau lleoedd i fodloni'r ardal, a throi geiriau i weddu gwahanol ardaloedd. Cafodd ganeuon y "music hall" ddylanwad ar emynau ac ar ganeuon "Traddodiadol". Cystyllywyd llawer o ganeuon i ardaloedd fel "Fflat Huw Puw" o ardal Porthmadog, a chaneuon "Pop" wedi tarddu o'r "Puffing Billy" Lerpwl caneuon am deithio o le i le ar fôr ac ar dir. Arwel oedd llywydd y noson a diolchodd i Goronwy am ei sgwrs ddifyr a chartrefol. Edrychwn ymlaen at y drydydd wers.

Daeth y tymor i ben gyda chyfarfod blynyddol ar Mai 13. Ein llywydd oes, Mrs Mair Rees Jones oedd yn y gadair. Diolchodd Mair i bawb am gefnogaeth a ffyddlondeb ac i'n hysgrifennydd Mrs lola Edwards am ei gwaith manwl ac ymroddgar. Gan Iola cawsom grynodeb o'r tymor gan ganolbwyntio ar ymweliad Mr Gareth Thomas un o blant yr Ysgol Sul, Cantorion Bethel a Roderick Owen, o Lerpwl, a dyfodiad y Parch Robert Parry atom ar y Glannau. Talodd Mair a lola ddiolch i'n dysgwyr am eu cyfraniad i' n Cymdeithas a'u brwdfrydedd. Etholwyd Phyllis a Terry i'r pwyllgor wedi i dymor Llwynwen a Gwyn ddod i ben. Caniataodd y swyddogion eraill i aros yn eu swyddi. Diolch hefyd i Gwyn sydd bob amser wrth y llyw ar y drws yn gofalu am y gwres a gydag Olwen, i baratoi'r gegin ar ein cyfer. Hefyd i Terry am gyfeilio, ac i Mena am redeg y raffl llwyddianus.

Cofiwch am ein Bore Coffi ar 6 Gorffennaf am 10 o'r gloch.

# APÊL ARIANNOL

## Cyfrol ar Hanes Cymry Lerpwl

Lluniodd y Parchedig Ddr. D. Ben Rees gyfrol yn croniclo Hanes Cymry Lerpwl o'r canrifoedd cynnar hyd heddiw. Enw'r gyfrol ydyw ***Hanes Rhyfeddol Cymry Lerpwl a'r Cyffiniau*** a lansir y gyfrol ar Nos Fawrth, 26 Tachwedd 2019 yn y Ganolfan (Auckland Road) Allerton am 7.30 o'r gloch.
**Er mwyn cael cyfrol hardd, gyda'r papur gorau, a 100 o luniau, a chloriau yn sgleinio bydd yn rhaid codi swm ychwanegol sylweddol tuag at y cyhoeddiad gan fod y gyfrol yn un swmpus a channoedd o dudalennau ynddi. Bwriedir yn 2020 cael fersiwn Saesneg o'r gyfrol, a gwahoddir darllenwyr *Yr Angor* i gyfrannu yn ariannol tuag at Cronfa Hanes Rhyfeddol Cymry Lerpwl mor fuan ag y modd.**
**Dylid anfon siec i Cymdeithas Etifeddiaeth Cymru Glannau Mersi / Merseyside Welsh Heritage Society i 32 Garth Drive, Allerton, Liverpool L18 6HW ac fe gyhoeddir y rhestr gyntaf yn rhifyn nesaf *Yr Angor* (Awst/Medi 2019).**
**Diolchwn am y gefnogaeth i gyfrol hynod o bwysig.**

*Yn ddiolchgar*

*D. Ben Rees, Cadeirydd*
*Rachel Gooding, Trysorydd*
*Arthur Thomas, Ysgrifennydd*

*1 Mehefin 2019*


Rhifyn Gorff 2019.qxp_Layout 1 27/06/2019 20:00 Page 6

**Cyflwyno:**

# EMYR HUMPREYS

## *gan Dr. Pat Williams, Allerton*

Un o lenorion pwysicaf Cymru yw Emyr Humphreys, er bod y rhan helaeth o'i waith yn perthyn i'r *genre* "Llenyddiaeth Eingl-Gymraeg" neu "Lenyddiaeth Saesneg Cymru", fel y cyfeirir ati bellach. Serch hynny, nid yw wedi cael llawer o sylw tan eleni, wrth iddo ddathlu ei ganfed penblwydd.




Ganed ef yn Nhrelawnyd, ger Prestatyn, a derbyn ei addysg yn Ysgol Ramadeg y Rhyl a Choleg Prifysgol Cymru Aberystwyth. Treuliodd ei oes wedyn fel athro, cynhyrchydd radio a darlithydd drama ym Mhrifysgol Bangor.

Mae wedi cyhoeddi dros ugain o nofelau, heb sôn am ddramáu, straeon byrion, barddoniaeth a hanes diwylliannol Cymru dan y teitl *The Taliesin Tradition*, gan ennill nifer o wobrau am ei waith. Serch hynny, un nofel yn unig ysgrifennodd yn Gymraeg, sef *Y Tri Llais*. Yn 2014 enwyd y cyfieithiad Saesneg ohoni, *A Toy Epic*, yn y *Wales Arts Review* fel nofel bwysicaf Cymru, gan ddweud ei bod mor "gyfoethog symbolaidd . . . â *Dr Zhivago* neu *Grapes of Wrath*."


Mae *Y Tri Llais* yn ymwneud â thri bachgen o gefndiroedd cymdeithasol hollol wahanol: Albi wedi ei eni mewn tŷ cownsil, Iorwerth ar ffarm a Michael yn y rheithordy. Mae'r awdur yn olrhain eu hanes o'u plentyndod yn yr ysgol gynradd hyd at amser gadael yr ysgol uwchradd. Mae'r nofel wedi ei lleoli yn ugeiniau'r ganrif ddiwethaf ac mae'n ymdrin â dyheadau'r bechyn, eu hagweddau at gymdeithas (gwahaniaeth dosbarth), at grefydd (capel v eglwys), at wleidyddiaeth, at eu hunaniaeth rywiol, eu cyfeillgarwch a'u carwriaethau ac at yr iaith. Ni fyddai llawer o barch at y Gymraeg yn yr ardaloedd ar y ffin â Lloegr y cyfnod hwnnw ac mae Albi, sydd yn fachgen uchelgeisiol ac yn awyddus i godi yn y byd, yn gwrando ar y radio er mwyn gwella ei acen Saesneg.

Iorwerth yw'r un mwyaf parod i dderbyn y ffordd draddodiadol Gymreig o fyw ond mae Michael yn erbyn y Gymraeg ac yn siarad Saesneg o hyd. Mae o'n flin ei fod yn gorfod mynd i ysgol leol yn hytrach nag i ysgol breswyl fel ei chwaer a oedd wedi ei gyrru yno i ddysgu siarad Saesneg lednais; ond wedi iddo ddod o dan ddylanwad cenedlaetholwr brwd mae'n gwneud *volte face* ac yn ymuno â'r Blaid Genedlaethol. Efallai fod hyn yn adleisio profiad yr awdur ei hun. Saesneg oedd iaith ei gartref yntau, ond ar ôl llosgi'r ysgol fomio ym Mhenllyn yn 1936, aeth ati i feistroli'r Gymraeg.

Thema arall sydd yn ganolog i'r nofel yw rhyfel, sydd yn taflu cysgod ar ddyheadau'r bechgyn. Dywed Michael, "Peth braf yw bod yn ifanc i fwynhau bywyd hyd yn oed mewn oes mor ddreng", a hynny "yn wyneb yr holl sŵn am argyfwng a rhyfel enfawr, fel gwenynen yn hel mêl mewn mieri a drain." Mae'r bechgyn yn trafod beth a wnaent pe bai rhyfel yn digwydd. Cofrestru fel gwrthwynebwr cydwybodol a wnâi Iorwerth, fel yr oedd Emyr Humphreys ei hun yn yr Ail Ryfel Byd, ond mae'r ddau arall yn derbyn eu tynged.

Er bod *Y Tri Llais* wedi ei lleoli mewn lle ac amser penodedig, mae'n trosesgyn hynny ac yn ymwneud â phroblemau sydd yn fythol berthnasol i ddynolryw.

# CORNEL Y TRYSORYDD



## GORFFENNAF 2019

| | |
|---|---|
| Mrs Menai Roberts, Newcastle | £25.00 |
| Mr a Mrs Gareth Hughes, Oxton | £30.00 |
| Mr a Mrs Arwel Williams, Roby | £25.00 |
| Mrs Glenys Jones (Er cof am Bob) Penbedw | £30.00 |
| Mrs Nerys Jones, Aigburth | £20.00 |
| Mrs Gwenfyl Bain, Mossley Hill | £20.00 |
| Cymdeithas Cymru Manceinion | £100.00 |
| Mr David Mawdsley, Bodfari | £25.00 |
| Yr Athro Huw Rees, Boncath | £30.00 |
| Mr a Mrs Glyn Davies, Rhuthun | £25.00 |
| Mrs Beryl Jones, Welwyn Gdr. City | £100.00 |
| Mr a Mrs Alun V. Jones, Childwall | £20.00 |
| Yr Athro David Price Evans, Woolton | £20.00 |
| Mrs Marian Prys Davies, Llandudno | £20.00 |
| Mrs Mair Jones, Childwall | £20.00 |
| **Cyfanswm** | **£510.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

**Cysylltwch â'r**

**YR ANGOR**
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

**dbenrees@gmail.com**

*Myfyrdod*

# COFIWCH I ANGHOFIO

Gwrandewis yn ddiweddar ar y radio gyda rhywun yn canu “Count your blessings’ ac wir roedd yn berffaith iawn oherwydd er mae mor galed ydy bywyd mae yna lawer, lawer iawn o le i ddiolch? Ond, i mi, y fendith fwyaf na soniwyd yn y gân oedd COF. Beth fuasech yn ei wneud hebddo? Ond wedyn mae ochr arall hefyd sef mewn trasiedi? Dyna i rai ynte? Dywedodd Tennyson “Death closes all” ac eto mae yna ochr eto sef Sant Paul – yn atgoffa ni bod yna gysur i’w gael “Death has no dominion” dros Crist a thrwyddo Ef i’w bobl. Byddaf yn cofio dyddiau dedwydd ond ni fuaswn heb y dyddiau di-flas chwaith.

Wedi dweud hyn, sut bethau ydych chi'n cofio? Beth sydd gennych yn warws eich ymennydd? Beth yw’r pethau hoffech eu cofio a’u trysori? Cofio genedigaeth y plant, y gwyliau mewn mannau “exotic”, achlysuron hwyl a miri. Efallai ar y llaw arall “fannau tawel”, dyddiau caru neu lythyr oddi wrth gyfaill oedd ar goll. Cofiaf ofyn i blant araf yn fy nosbarth beth oeddynt yn cofio – o cael beic, trip Ysgol Sul te parti ond John (cerebral palsy) cwtch gan Mam.!! Rydw i’n siwr petaswn yn rhestri yr holl atebion buasai’n dangos sut bobol ydym o ran diddordebau a chymeriad.

Ond, tybed nawr, wnewch chi faddeu imi am ofyn, ond credaf yn gydwybodol ei fod yn bwysig sef a wnewch chi gofio i anghofio? Rydw i’n cytuno’n llwyr bod hyn yn beth anodd iawn i’w wneud a chyda’r byd fel y mae credaf y dylem geisio beth bynnag. Ydych yn cofio beddargraff Robert Louis Stevenson – “Dyma'n gorwedd un a oedd yn barod i fod yn well, ceisiodd am ychydig a fethodd lawer"

Beth am ddoluriau a threialon y gorffennol? Digon hawdd codi cnecs ac hawdd iawn ei ail godi a dyna ni wedyn – meddwl amdanynt, troi nhw yn ein meddwl, ypsetio ein hunain. Chwi wyddoch mai pendronni a poeni ydy'r peth diwethaf mae eisiau gwneud – "let go" ynte?

Mae llawer un wedi fy mhrifo yn ystod fy mywyd, llawer ohono yn genfigen mi gredaf, llawer tro sal i gael mantais, llawer o gasineb enwedig yn y “rat-race” mewn bywyd OND er hyn i gyd rydw i’n FYW a bywyd trwy yr Anfeidrol wedi bod yn dda i mi ac i’r teulu. Mae’r holl a ddigwyddodd yn y gorffennol yn ‘ddŵr bywiol o dan y bont’.

Mae'r cof yn anrheg gwerthfawr oddiwrth Dduw. Diolchaf yn feunyddiol amdano yn fy henaint. Wrth eistedd o flaen y tân gallaf gael rhosod ym mis Rhagfyr neu'r "Mistletoe" ym mis Mai. Meddyliwch yn eich hamser hamdden fel mae'n hawdd cadw yn ein meddwl ‘droeon yr yrfa’ ond maent yn suro ein golwg o fywyd os na allwn fwynhau. Mae e'n olwg sy'n ymhell o'r gwirionedd ac hefyd allan o bob welediad. Gyfaill, does dim rhaid dweud mwy ond ti wyddost yn dy galon fod yna lawer o bethau yn dy fywyd a gyda fi, hefyd, mae’n rhaid i ni eu hanghofio. Pam? Yn syml, er mwyn i ni fwynhau bywyd yn Ei gariad Ef a mwynhau Eu ofal a mwy na dim Ei gariad anghymarol hyd dragwyddoldeb. Pob bendith arnoch ym mis cofio deugain mlynedd yr *Angor*.

*Fy hunan oll i Ti, O Iesu da,*
*Er dyfod cwmwl, neu heulwen ha;*
*O fore oes, hyd nes i’r cyfnod ddod,*
*Rho im y fraint o fyw bob dydd i’th glod.*

***ELWYN PARRY***

# DETHOLIAD O STORM

*Hwyliaist i’r ddrycin hyd y coridôr*
*a’th fywyd brau yn brwydro’r tonnau mawr*
*diflanaist ti o’m golwg i drwy’r ddôr*
*heb sicrwydd am ddyfodol pell y wawr.*
*Am oriau bu meddygon wrth eu gwaith*
*yn ceisio adfer iechyd i dy gorffyn gwan*
*arafodd bysedd cloc am amser maith*
*dy gwch o hyd ymhell o gyrraedd glan.*

*Ond amser ddaeth a’i dawel donnau dwys*
*i leddfu poen a chau pob dolur blin*
*i ddangos beth mewn bywyd sydd o bwys,*
*i’th achub ac i’th gynnal wedi’r trin.*
*I’r harbwr daeth dy gwch o’r storm a’i glyw*
*a’th angor nawr yn saff yng nghraigle Duw.*

***Storm – gan Enfys Hughes, detholiad o’r gerdd a enillodd y Goron iddi yn Eisteddfod Llandegfan.***

Rhifyn Gorff 2019.qxp_Layout 1 27/06/2019 20:00 Page 8

# CYNGERDD OLAF Y TYMOR CÔR CYMRY LERPWL

I orffen y tymor ‘roedd Côr Cymry Lerpwl yn canu yn Eglwys St Andreas, West Kirkby a chafwyd cyngerdd o ffefrynnau corawl. Braf oedd clywed ein Hanthem Genedlaethol yn cael ei chanu ar ddechrau’r cyngerdd. Mae'r Anthem yn golygu llawer iawn i’r Cymry ac o’r herwydd mae'n bwysig peidio â'i hystyried fel eitem gerddorol yn unig mewn rhaglen. Canodd y côr dri darn Cymraeg gan gynnwys ‘Anfonaf angel ’ gan Robert Arwyn a threfniant dymunol iawn o ‘Calon Lan’ gan yr arweinydd Keith Orrell. Yna clywodd y gynulleidfa weithiau corawl ac unawdau gan Stephen Hargreaves, organydd y Côr, a'r soprano gwadd Ann Wilkes. Gorffenwyd y cyngerdd gyda ‘Gloria’ a gyfansoddwyd gan Francis Poulenc ac a oedd yn cynnwys chwech symudiad oedd yn seiliedig ar un o’r offerennau yr Eglwys Pabyddol.

Edrychwn ymlaen yn eiddgar at dymor nesaf y Côr.



***Llun gan Tim Evans : Côr yn canu yn Eglwys St. Andreas***

## *Gair Byr i’r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu’r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** – Dyma eitem i godi’n calonnau, ac ym mhob rhifyn cawn golofn haeddiannol o haelionus. Daliwch i gynnal y papur bro unigryw hwn trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl / Liverpool L19 4UA. Bydd eich cyfraniad yn cael ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn *Yr Angor.*

- ***Pris Yr Angor.*** Am eleni eto yr un pris. Anhygoel. Dim ond £11.00 trwy’r post, trwy’r capeli a’r cymdeithasau £5. Cyfle i hysbysebu am £2, tudalen gyfan £60, hanner tudalen £30.

- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**
- **Rhifyn Awst/Medi 2019** erbyn bore Llun, 1 Gorffennaf, 2019 – lluniau, adroddiadau, llythyron, cyfarchion, hysbysebion i benatgarthdrive@talktalk.net

- **Rhifyn Hydref 2019** – erbyn Llun, 9 Medi i 53, Ox Lane, Harpenden, Herts. AL5 4PH er mwyn ei bostio i’r cysodydd am 1 o’r gloch ar 9 Medi.

- **Rhifyn Tachwedd 2019 –** erbyn Mawrth, 1 Hydref, 2019 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno yn gyson, byddwn yn gobeithio gosod mwy o luniau yno yn y dyfodol agos).

- **Cofier hysbyseb Dathlu** geni, hanes a chyfraniad *Yr Angor* am bron i 40 mlynedd. ***Dyddiau’r Dathlu: Sadwrn, 20 Gorffennaf a Sul, 21 Gorffennaf, 2019.***

# BORE COFFI

**ar fore Sadwrn, 7 Gorffennaf 2019 am 10 o'r gloch**
**yn Festri Capel Presbyteraidd Cymraeg,**
**Laird Street, Penbedw**
**o dan nawdd Cymdeithas Cymry Birkenhead.**
Cyfle da i gymdeithasu cyn gwyliau'r haf ac ail gychwyn yn mis Medi.
Croeso i bawb. Galwch i fewn



YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI
A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

# GŴYL DATHLU YR ANGOR YN DDEUGAIN OED (1979-2019)

**Penwythnos 20 a 21 Gorffennaf, 2019**
**yng Nghanolfan a Chapel Bethel, Heathfield Road / Auckland Road, Lerpwl**

## SADWRN, 20 GORFFENNAF 2019

Bydd yr adeilad yn cael ei agor am 10.00 o'r gloch bore Sadwrn a Sul.

**Sesiwn Cyntaf** (10.30 i 11.20) **SGWRS GAN D. BEN REES AR BROFIADAU Y GOLYGYDD.**
Llywydd: Roderick Owen (*Trysorydd Yr Angor*)
11.20 - 11.55 – Toriad a chyfle i gael paned a sgwrs
**Ail Sesiwn** (11.55 i 1 o'r gloch). Llywydd: Elwyn Evans
**CYFLWYNIAD POWER POINT GAN DR. JOHN G. WILLIAMS, CADEIRYDD *YR ANGOR* AR LUNIAU A CHYFLWYNIADAU Y PAPUR BRO.**
**Cinio** (1 hyd 2.15 o'r gloch) – Digon o ddewis o fewn can llath i'r Ganolfan.

**CYNGERDD Y PNAWN** o 2.30 i 4 o'r gloch
***Arweinydd: Y Parchedig Robert Parry.***
***Llywydd: Parchedig Mike McGurk, Archddiacon Lerpwl***
**Artistiaid:**
**Robin Huw Bowen, Capel Seion, Ceredigion (Telynor) a Côr Bara Brith o Ynys Môn.**
Pris tocyn am y bore a phnawn: £10. Gellir archebu tocynnau oddi wrth Beryl Williams (0151) 722 1092.

**Nos Sadwrn, 20 Gorffennaf yn Ystafell Fwyta, Clwb Golff Woolton, Lerpwl am 7.30 o'r gloch**
Cadeirydd: Dr. D. Ben Rees. Siaradwr: **Dr. Huw Edwards, BBC, Llundain**
*Lawnsio'r gyfrol Gymraeg, copiau meddal £10, copiau caled £15, tudalennau 425 o leiaf.*
*Cyflwynir copi i'r Golygydd a gwahoddedigion gan Gadeirydd Yr Angor, Dr. John G. Williams.*
*Bwriedir llofnodi copïau ar derfyn y noson. Pris y cinio £25. Archebwch y tocynnau.*

## SUL, 21 GORFFENNAF 2019

**Oedfa'r Bore ym Methel, Heathfield Road am 10.30.**
**Darperir cinio am 12 o'r gloch cyn y Gymanfa.**
**Cymanfa Ganu am 2 o'r gloch – Côr y Ffin - Arweinydd: Geraint Roberts**

*Dewch yn llu i'r Ŵyl Unigryw Hon. Byddwch ar eich ennill. Trefnir yr Ŵyl gan Bwyllgor yr Angor mewn cydweithrediad gyda Chymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Merswy.*

# Myfyrdod ar bêl-droed: 1957 a 2019

Beth sy'n gwneud i rywun gefnogi un tîm yn hytrach nag un arall? Gallwn ddeall yr awydd i gefnogi eich tîm cenedlaethol, neu eich tîm lleol os oes un yn bod, neu yr un tîm a'ch teulu - os ydynt yn frwdfrydig – ond heb gysylltiad o'r fath, sut mae penderfynu? Lliw y crys? Coch ynteu glas? Dyna'r broblem yn gwynebu unrhyw fewnfydwyr fu'n cartrefu yn Lerpwl neu Fanceinion erioed ers dechrau'r ugeinfed ganrif.

Fel y dywedais o'r blaen (*Yr Angor*, CYF. 39, Rhif 9, Chwefror 2018), wedi dod i Fanceinion ym mis Medi 1957, byddwn yn mynychu *Maine Road* ac *Old Trafford* yn reit aml ac yn mwynhau cael gweld yr 'enwau mawrion' ar y cae. Ond at 'City' y cefais fy hudo. 'Roedd ganddynt ddau Gymro yn chwarae yn y tîm ar y pryd – Roy Paul, y capten, a Roy Clarke, ac yn y gôl Almaenwr, y ceidwad enwog Bert Trautmann. Blwyddyn ynghynt, pan enillodd *City* y Gwpan yn Wembley, cafodd Trautmann ei anafu wrth arbed y bêl wrth draed un o ymosodwyr Birmingham ac er fod asgwrn yn ei wddf wedi torri, cariodd ymlaen i chwarae y chwarter awr olaf hyd ddiwedd y gêm.




Wedi'r ddamwain i dîm *United* yn Munich yn Chwefror 1958, llifodd cydymdeimlad y cyhoedd at y crysau coch ac fe fu tîm y crysau glas yn y cysgod am rai blynyddoedd. Yn wir, bu y geiriau a glywid yn y *Messiah* am 'ŵr gofidus a chynefin â dolur' yn addas iawn i ddisgrifio un a gefnogai *City* yn y cyfnod yma. Ond nid felly yn awr! Daeth tro ar fyd, a lleuad glas sydd heno uwchben y ddinas. Bu'r ornest am gipio'r goron eleni yn un anhygoel, gyda Lerpwl yn ymladd yn ddewr hyd y diwedd. Ni allwn ddim ond eu llongyfarch a diolch iddynt am roi o'u gorau. Diddorol fydd gweld sut bydd pethau'n datblygu yn y tymor nesaf.

Bu farw Carl Bernhard Trautmann yn 2013 yn 89 mlwydd oed. Yn 2010 fe gyhoeddwyd llyfr gan Catrine Clay[1] yn olrhain hanes ei fywyd o'i enedigaeth yn 1923, drwy'r cyfnod o dyfu i fyny yn yr Almaen yn amser y Natsiaid, ymuno yn y *Luftwaffe* a gweld brwydro ar y blaen yn y dwyrain (ple'r enillodd Groes Haearn) cyn cael ei symud i'r gorllewin ple cafodd ei ddal a'i garcharu ymhen amser mewn gwersyll ger Ashton in Makerfield. A'r rhyfel ar ben, byddai yn chwarae yn gôl i glwb St Helens ac yno fe'i gwelwyd gan sgowt *Manchester City* ac fe gynigwyd cyfle iddo aros yn lle mynd yn ôl i'r Almaen. A lluniau difrifol o'r gwersyll fel Auschwitz a Bergen-Belsen wedi ymddangos ac ym meddwl pawb, yr oedd llawer o deimladau cryf yn bod ar y pryd yn erbyn rhoi Almaenwr i mewn yn unrhyw dîm. Yr oedd y gymuned Iddewig ym Manceinion yn bendant yn erbyn ac yn bygwth torri cysylltiad â'r clwb. Daeth tyrfa o ugain mil ynghyd i ddatgan eu gwrthwynebiad ond ar ôl dechreuad braidd yn ansicr yn Hydref 1949, fe ddaeth Bert yn ffefryn ac fe chwaraeodd 545 o weithiau i City cyn ymddeol ym 1964. Yn 2004, cafodd Bert Trautmann ei anrhydeddu â'r OBE am ei gyfraniad i wella y berthynas rhwng Lloegr â'r Almaen.




Gwelais ei hanes yn ddiweddar yn y ffilm '*The Keeper'* (2018), ac os cewch gyfle i fynd i'w weld, ewch. Mae yn ddigon brwnt ar y dechrau, yn dangos yr atgasedd tuag at y carcharorion rhyfel, ond hefyd yn dangos fod modd i faddeuant a chyfeillgarwch ddod i'r brig yn y diwedd. 'Dyw *Maine Road* yn ddim ond atgof yn awr, yr hen stadiwm wedi ei dymchwel ac ysgol gynradd a rhesi o dai wedi cymryd ei lle. Mae'r miri ar brynhawn Sadwrn yno wedi tewi, y cyffro yn awr yng nghartref newydd yr *Etihad* a chenhedlaeth newydd o gefnogwyr yn tyfu heb wybod am 'y dyddiau blin'. Gwyn eu byd!

Crys coch ynteu crys glas? Fel dywedodd Bill Shankly: *"Football - a matter of life or death? It's more important than that."*

***Elwyn Evans***

1. Clay, Catrine, *Trautmann's Journey*, Yellow Jersey Press, 2010

# ADOLYGIAD

**Patricia Williams,** *A Oes Heddwch?: Arolwg ar Awdlau a Phryddestau Buddugol Eisteddfodau Cenedlaethol Lerpwl*. Cyhoeddiadau Modern Cymreig. 2019. 96 tt. £15.

Wele gyhoeddiad hynod gymen a deniadol unwaith yn rhagor o stabl Cwmni Cyhoeddiadau Modern Cymreig, Lerpwl. Mae'r awdur dysgedig Patricia Williams yn arbenigwr yn bennaf ar lenyddiaeth yr Oesoedd Canol, yn fwyaf arbennig cyfieithiadau o'r Lladin. Treuliodd y rhan fwyaf o'i bywyd yn ninas Lerpwl, a bu'n dal swydd darlithydd o fewn Prifysgol Manceinion.

A thema'r gyfrol fach ryfeddol o ddifyr hon yw'r awdlau a'r pryddestau a fu'n fuddugol yn yr Eisteddfodau Cenedlaethol a gynhaliwyd yn ninas Lerpwl yn y blynyddoedd 1884, 1900 a 1929, pan roedd nifer sylweddol o Gymry Cymraeg eu hiaith wedi mudo i'r ddinas a chyfrannu'n aruthrol at fywyd diwylliannol a llenyddol y ddinas. Y symbyliad gwreiddiol i'r awdur i ddechrau ymchwilio i'r maes hwn oedd y gwyliau arbennig a gynhaliwyd o fewn y ddinas i goffâu'r bardd Pedrog yn y flwyddyn 2010 ac yna'n fwyaf arbennig Hedd Wyn yn 2017, hynny o dan nawdd Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi, corff bywiog ac ymroddgar dros ben.

Yna bu Patricia Williams yn gwylio rhaglen teledu am gadeiriau eisteddfodol a fu ar goll am nifer fawr o flynyddoedd, a chael syndod ei bywyd i weld bod dwy ohonynt wedi eu darganfod o fewn Neuadd y Dref yn Lerpwl o bob man. Testun rhyfeddod pellach iddi oedd darganfod fod beirdd cenedlaethol adnabyddus fel Dyfed, Pedrog a Dewi Emrys wedi cipio'r gadair, a phryddestau enwogion eraill fel J. T. Job a Caradog Prichard wedi disgleirio yn y cystadleuthau ar gyfer y goron hefyd. Yn wir, Caradog Prichard a fu'n fuddugol ym 1929.

Ar ôl darllen y cerddi hyn oll, daeth awydd ynddi i'w hail-gyflwyno ar gyfer darllenwyr y byd modern. Er bod y mwyafrif o'r cerddi gwreiddiol yn hir dros ben, aeth yr awdur ati i geisio cyfleu eu cynnwys a'u prif nodweddion i ddarllenwyr yr oes sydd ohonom. Cawn gyfle i ddarllen mewn cryn fanylder am yr amgylchiadau ynghylch cynnal yr eisteddfodau hyn, yn fwyaf arbennig prifwyl nodedig 1884. Cawn fanylion llawn am y tri beirniad ymhob achos a'u sylwadau am y cerddi a gyflwynwyd ar gyfer cystadlaethau'r gadair a'r goron.

Gwilym Hiraethog oedd testun yr awdl yn eisteddfod 1884 ac yntau, yn drist dros ben, wedi marw dim ond dau ddiwrnod cyn cynnal y seremoni cyhoeddi yn Nhachwedd 1883. Yna cynhaliwyd eisteddfod nesaf Lerpwl yn y flwyddyn 1900. A neb llai na Phedrog oedd yr enillydd y tro hwnnw, ac mai ei gadair ef ar gadw o fewn Neuadd y Dref, Lerpwl hyd at heddiw. Yna erbyn 1929, pan roedd neb llai na'r unigryw Dewi Emrys yn fuddugol ar gyfer cystadleuaeth y gadair, roedd ei awdl ef wrth gwrs cryn dipyn yn fyrrach na'r rhai buddugol ym 1884 a 1900. Oedd, roedd yr oes wedi newid yn wir.

Mae ail adran y gyfrol yn cyflwyno'r un fath o fanylion a dadansoddiad ynghylch cystadleuaeth y goron. E. Ffoulks, rheolwr Chwarel Dinorwig, Llanberis oedd yr enillydd ym 1884, a'i bryddest ar y testun 'Yr Aipht' yn ymestyn i fwy na dwy fil o linellau ar ei hyd. Ac ym 1900 y Parch John T. Job a gipiodd y goron gyda phryddest o ryw 1200 o linellau ar 'Williams, Pantycelyn'. Er eto braidd yn hir, roedd modd i bron pawb ddeall a gwerthfawrogi'r bryddest nodedig hon ar Bantycelyn ym 1900.

Fel arall roedd hi ym 1929 gyda phryddest Caradog Prichard ar y thema 'Y Gân ni Chanwyd', cerdd a berodd cryn anhawster i'r tri beirniad deallus a doeth. A gellir cydymdeimlo'n llawn â hwy ar ôl darllen y darnau o'r bryddest a gyflwynir inni yma. Mae rhaid darllen y bryddest hon nifer o weithiau yn araf ac yn ofalus dros ben er mwyn ceisio gwerthfawrogi ei chynnwys a'i gwerth yn llawn.

Un o gryfderau mawr yr astudiaeth yw'r wledd anghyffredin o ffotograffau a lluniau a geir ar dd. 35-50. Yn eu plith ceir ffotograffau o nifer o'r cewri oedd ynghlwm wrth ddatblyiad yr Eisteddfod Genedlaethol, ac yn eu plith Hwfa Môn, Clwydfardd, Gwilym Hiraethog, J. T. Job, Dyfed, Pedrog, Caradog Prichard a Dewi Emrys. Difyr odiaeth yn ogystal yw'r posteri a'r rhaglenni swyddogol a gyhoeddwyd ar gyfer y tair eisteddfod, y ffotograffau o'r Orsedd a'r cadeiriau eithriadol o hardd a enillwyd ym 1884 a 1890.

Ac mae'r cyfan o'r testun a'r capsiynau hwythau wedi eu trosi i Saesneg graslon a darllenadwy o fewn y cyhoeddiad bach cymen hwn, cyfrol a fydd yn sicr o ddiddordeb aruthrol a pharhaol i bawb sydd yn ymddiddori yn hanes yr Eisteddfod Genedlaethol a hanes diwylliannol dinas Lerpwl yn y cyfnod modern. Can diolch i'r awdur am ei llafur manwl a gofalus, ac i'r Dr D. Ben Rees yntau am ei barodrwydd i gyhoeddi'r gwaith hwn mewn fformat mor ddeniadol ac apelgar ar ein cyfer.

***J. Graham Jones***

## AT EICH SYLW

Gofynnaf yn garedig i chi gysylltu'n uniongyrchol gyda mi, Cadeirydd Y Pwyllgor os oes yna gŵyn, ymholiad neu unrhyw sylw i'w wneud ynglŷn â chynnwys *Yr Angor* – bydd hyn yn sicrhau fod pobl sylw yn cael ei drin yn gyflym. Diolch yn fawr iawn.

**John G. Williams**
**0151 722 1092**

### *Gwylwyr yn gallu creu sianel bersonol eu hunain ar S4C Clic*

Mae datblygiadau newydd ar S4C Clic yn golygu bod modd i ddefnyddwyr greu sianel bersonol eu hunain.
Yn rhan o'r datblygiadau bydd modd i ddefnyddwyr greu proffiliau ar gyfer y teulu, greu rhestr bersonol o raglenni a pharhau i wylio rhaglen o'r un man.
Yn ystod mis Mehefin bydd gofyn i ddefnyddwyr gofrestru er mwyn defnyddio adnoddau S4C Clic. Bydd unrhyw un a fydd yn cofrestru rhwng 27 Mai i 10 Awst yn cael y cyfle i ennill Teledu Clyfar Sgrîn Lydan 49". Dim ond unwaith sydd angen cofrestru ac mae'n cymryd munud neu ddwy yn unig.
Dros y misoedd diwethaf mae S4C wedi rhyddhau nifer o gyfresi Bocs Set ar S4C Clic. Mae'r cyfresi wedi profi i fod yn hynod llwyddiannus gyda nifer o glasuron fel *Con Passionate, Y Gwyll* a *35 Diwrnod* yn dod i'r brig. Mae nifer o hen gyfresi hefyd fel *Nyth Cacwn* a *Tair Chwaer* wedi dal dychymyg a chreu atgofion i'n gwylwyr.

***Nid yw'r bwrdd golygyddol Yr Angor o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur.***

***Os bydd llun neu erthygl wedi ymddangos mewn unrhyw bapur bro neu gylchgrawn arall ni fydd Yr Angor o reidrwydd yn ei ddefnyddio***

CYMRAEG

***Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15. Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*

## *CYSTADLEUAETH GOLFF CYMRY LERPWL 2019*

### *MEDI 4ydd, CLWB GOLFF WOOLTON*

*18 twll a chinio £35 . Cinio yn unig £20. Raffl ac ocsiwn wedi'r cinio.*



**Elw tuag Gyfundrefn Nyrsio Admiral yn Lerpwl**
**(Nyrsus arbenigol yn gofalu am bobl gyda dementia a'u teuluoedd)**
**a Dathliadau Cyfrol Hanes Cymry Lerpwl**
**Enwau i Dr. John Williams – Ffôn 0151 7221092**

# Y BYDYSAWD YNG NGHADEIRLAN LERPWL

Sylwadau Dr. John G. Williams



Yn dilyn llwyddiant dangos 'Y lleuad' yng Nghadeirlan Anglicanaidd Lerpwl y llynedd bu disgwyl mawr i weld 'Y byd – GAIA ' sydd yna hyd Fehefin 23ain.
Mae'r model o'r ddaear yn 23 troedfedd ar draws ac yn cylchdroi unwaith bob pedwar munud - 360 gwaith yn gyflymach na'n planed ni.
Crewyd 'Y Byd' gan Luke Jerram a'i alw'n 'Gaia', sydd mewn Groeg yn golygu personoliad y ddaear.
Ar ddydd Llun, Ŵyl y Banc 'roedd ciw hir o bobl y tu allan i'r Gadeirlan yn aros i weld 'Y byd'.
*Y dyfyniad a ddaeth i'm meddwl oedd "Wrth edrych allan i'r gofod, a gweld gwaith dy fysedd, y lleuad a'r sêr a osodaist yn eu lle, beth ydi pobl i Ti ei boeni amdanyn nhw?"*
Psalm 8: 3-4